

Certolizumab pegol a secukinumab i drin arthritis soriatic actif ar ôl ymateb annigonol i gyffuriau gwrth-wynegol sy'n addasu clefydau (DMARDs)

24 Mai 2017

Mae certolizumab pegol (Cimzia) ar gael ar y GIG fel triniaeth ar gyfer arthritis soriatic mewn oedolion:

- sydd â 3 chymal poenus a 3 chymal chwyddedig sydd eisoes wedi rhoi cynnig ar o leiaf 2 gyffur gwrth-wynegol sy'n addasu clefydau a roddwyd ar wahân neu gyda'i gilydd, ond nad ydynt wedi gweithio, neu
- sydd wedi cael atalydd alffa ffactor necrosis tiwmor (TNF) ond nad yw hyn wedi gweithio'n ddigon da ar ôl 12 wythnos o driniaeth.

Dim ond pobl y mae eu harthritis soriatic wedi gwella digon erbyn 12 wythnos all barhau â'r driniaeth. Gellir cymryd certolizumab pegol ar ei ben ei hun neu gyda chyffur o'r enw methotrexate.

Mae secukinumab (Cosentyx) ar gael ar y GIG fel triniaeth ar gyfer arthritis soriatic mewn oedolion:

- sydd â 3 chymal poenus a 3 chymal chwyddedig sydd eisoes wedi rhoi cynnig ar o leiaf 2 gyffur gwrth-wynegol sy'n addasu clefydau a roddwyd ar wahân neu gyda'i gilydd, ond nad ydynt wedi gweithio, neu
- sydd wedi cael atalydd alffa TNF, ond nad yw hwn wedi gweithio neu nad yw gweithio'n ddigon da ar ôl 12 wythnos o driniaeth neu
- ble defnyddir atalyddion TNF ond na all y person eu defnyddio.

Dim ond pobl y mae eu harthritis soriatic wedi gwella digon erbyn 16 wythnos all barhau â'r driniaeth. Gellir cymryd secukinumab ar ei ben ei hun neu gyda methotrexate.

Os nad ydych yn gymwys i gael y driniaeth, ond rydych eisoes yn cymryd certolizumab pegol neu secukinumab, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am [wneud penderfyniadau am eich gofal](#).

Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-ffeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

Gwybodaeth a chymorth

Gall [NHS Choices](#) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- [Gofal Arthritis](#), 0808 800 4050
- [Psoriasis and Psoriatic Arthritis Alliance](#)
- [Y Gymdeithas Soriasis](#)

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2353-3